

## **Bwletin Awdurdod S4C Cyfarfod 296 - 17 Ionawr 2007 S4C, Llanisien, Caerdydd**

Mae'r bwletin hwn yn adrodd ar gyfarfod yr Awdurdod a gynhaliwyd ar 17 Ionawr 2007.

1. **Erthygl**  
Mynegodd y Cadeirydd longyfarchiadau i'r Prif Weithredwr ar erthygl wych yn y Guardian.
2. **Rhestr Diddordebau Aelodau'r Awdurdod**  
Atgoffwyd yr aelodau i gwblhau a dychwelyd eu datganiadau o ddiddordeb er mwyn cyhoeddi'r rhestr ar safle we S4C [www.s4c.co.uk](http://www.s4c.co.uk)
3. **Cynllun Corfforaethol 2007**  
Adroddodd IJ y byddai'r Cynllun yn cael ei roi ar wefan S4C o fewn yr wythnosau nesaf. Nid oedd hyn wedi ei wneud eto, gan fod angen cyfathrebu'r cynllun i'r staff.
4. **Cynllun Cyfathrebu'r Awdurdod**  
Cytunwyd bod angen paratoi papur byr ar y gweithgareddau cyfathrebu mae'r Awdurdod yn eu gwneud ac o dan ofyniad i'w gwneud. Gofynnwyd hefyd am bapur byr gan IJ ar weithgareddau cyfathrebu S4C a fyddai o gymorth.
5. **Amcanion Allweddol yr Awdurdod 2007**  
Cymeradwywyd yr amcanion a gyflwynwyd i'r Awdurdod.
6. **Adroddiad Monitro Cynllun Corfforaethol 2006**  
Mynegodd y Cadeirydd longyfarchiadau ar gymaint oedd wedi cael ei gyflawni mewn blwyddyn.
7. **Datganiad Polisi Rhaglenni S4C am 2007**  
Adroddodd RG bod y newidiadau a awgrymodd yr Awdurdod yn y cyfarfod diwethaf wedi eu hadlewyrchu yn y datganiad. Cymeradwywyd y datganiad a gyflwynwyd, ac eithrio gwneud ambell fân newid pellach.
8. **Adolygiad o Ddatganiad Polisi Rhaglenni S4C am 2006**  
Cytunwyd ar rai mân newidiadau, yn ogystal ag ychwanegiadau roedd y Prif Weithredwr eisoes wedi eu rhoi i Gadeirydd y Pwyllgor Cynnwys ynglŷn â thystiolaeth ymchwil ar rai rhaglenni. Cytunwyd i ddanfôn y datganiad gorffenedig i Ofcom erbyn 19/01/07.
9. **Adroddiad y Cadeirydd**  
Nododd y Cadeirydd ei fod wedi cyfarfod â Huw Morgan o Autism Cymru, oedd yn ddiolchgar iawn am gymorth S4C a'i hymdrechion i godi ymwybyddiaeth o waith yr elusen.
10. **Adroddiad y Prif Weithredwr**  
Cyflwynodd y Prif Weithredwr ei hadroddiad a nodwyd y canlynol:
  - Brand – nodwyd bod noson lwyddiannus iawn wedi ei chynnal yn Llundain y noson flaenorol i lansio'r brand, gyda tua 85 o westai. Nododd hefyd bod y wefan ar ei ffurf newydd wedi mynd yn fyw yn fyd eang y noson flaenorol. Rhoddwyd dangosiad byr i'r Awdurdod o'r hyn a ddangoswyd yn y noson lansio yng Nghaerdydd.

11. **Cyflwyniad Chwarterol Ymchwil**  
Cyflwynodd Carys Evans ac Ellen Looker gyflwyniad ymchwil ar gyfer y flwyddyn 2006.

12. **Materion Eraill**

Yn ogystal, trafodwyd/nodwyd y materion canlynol:

- Adroddiad Cwynion a Chydymffurfiaeth
- Adroddiad Gwifren Gwylwyr
- Adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor Personél a Chydnabyddiaeth
- Adroddiad y Cyfarwyddwr Comisiynu
- Adroddiad Ariannol
- Nodwyd cofnodion Pwyllgor Archwilio 28 Ebrill, 2006
- Rhaglen Waith yr Awdurdod 2007
- Tabl Digwyddiadau am 2007